Atodiad 2

## Arolwg Dilynol i'r Adolygiad o Gartrefi Gofal: Sylwebaeth am yr Ymateb gan Gyngor Gwynedd

**Gofyniad Gweithredu 2.2**

Mae gan bobl hŷn mewn cartrefi gofal fynediad i wasanaethau arbenigol, a phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

**Ffiniol**

Rwyf yn falch o nodi bod Gwynedd wedi cydweithio'n agos â phartneriaid iechyd i sefydlu cymorth Ailalluogi a Gofal Canolraddol. Mae'r ymateb yn cynnwys tystiolaeth o ddefnydd ehangach o'r Gwasanaeth Ailalluogi Tymor Byr, a diddorol yw gweld bod y perthnasoedd gweithio rhwng staff cartrefi gofal, therapyddion a gweithwyr cymdeithasol wedi gwella lle mae gwelyau ailalluogi tymor byr wedi'u lleoli mewn cartrefi gofal. Cafwyd cynnydd ar ddarparu cyfarpar, ac roedd yn galonogol gweld sut mae Cyllid Gofal Canolraddol wedi'i ddefnyddio i osod ceginau fel bod pobl yn gallu paratoi eu prydau bwyd eu hunain, gan fod hyn yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth.

Fodd bynnag, mae nifer o'r enghreifftiau a ddarparwyd yn y cyflwyniad hwn yn ymwneud â phontio lle mae pobl yn cael eu galluogi i ddychwelyd i'w cartrefi. Rwyf yn cydnabod bod hon yn flaenoriaeth bwysig i wasanaethau cyhoeddus, a bod cartrefi gofal yn cael eu defnyddio fwyfwy fel lle ar gyfer pontio, ond nid yw'r ffocws hwn yn yr ymateb gan Gyngor Gwynedd yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch sut mae preswylwyr yn fwy cyffredinol yn cael gafael ar gymorth arbenigol. Byddwn hefyd wedi hoffi gweld rhagor o dystiolaeth o'r ffordd y mae prosesau cynllunio gofal yn helpu i atgyfnerthu nodau ailalluogi drwy reolweithiau dyddiol a gwaith atgyfnerthu rhagweithiol, drwy gydweithio â'r preswylydd, aelodau'r teulu a staff gofal. Dylai hyn ddigwydd o fewn fframwaith sy'n hybu ymagwedd at dderbyn risg sydd wedi'i phersonoli ac yn seiliedig ar ailalluogi.

Roeddwn yn falch o nodi bod y rheini sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn cael defnyddio pob agwedd ar y gwasanaeth ailalluogi tymor byr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn canolbwyntio i gryn raddau

ar gartrefi gofal yr Awdurdod Lleol a'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau'r Awdurdod Lleol. Nid yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn rhoi sicrwydd i mi ynghylch y ffordd o ymdrin ag anghenion ailalluogi yn holl gartrefi gofal yr Awdurdod Lleol a'r sector annibynnol a'r ffordd o hyrwyddo hyn drwy brosesau rheoli contractau. Mae'r data a ddarparwyd yn cael eu mynegi yn nhermau 'trwygyrch' a 'chyrchfan' yn hytrach na chyflawni canlyniadau wedi'u personoli.

Ar nodyn cadarnhaol, mae tystiolaeth o ganolbwyntio ar ailalluogi mewn hyfforddiant staff, ynghyd ag ymdrechion i newid y diwylliant drwy raglen Ffordd Gwynedd. Ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, mae Gwynedd hefyd yn ceisio rhoi sylw i anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig, yn benodol drwy ddatblygu darpariaeth ehangach o ofal ailalluogi tymor byr a thrwy ddatblygu telefeddygaeth. Mae cynlluniau hefyd i ehangu'r ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion preswylwyr sydd â dementia. Rwyf yn cael fy nghalonogi'n fawr hefyd gan y cyfeiriad yn yr ymateb i Ofyniad Gweithredu 3.2 at y rhaglen Dementia Go, sy'n cynnig ymyriadau ar ffurf sesiynau ymarfer i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae gweithgarwch corfforol hwyliog o'r math hwn, lle mae gofalwyr teuluol hefyd yn gallu cymryd rhan, yn rhywbeth i'w groesawu.

Disgrifiwyd amrywiaeth o gamau gweithredu mewn perthynas ag adsefydlu ac ailalluogi, yn gysylltiedig â'r posibilrwydd o ehangu cymorth gwaith cymdeithasol y tu allan i oriau arferol, cymorth ailalluogi tymor byr, a chyflwyno gweithwyr generig. Er hynny, mae nifer o'r rhain wedi'u mynegi mewn termau amhendant. Cyfeiriwyd at gynllun gweithredu mewn perthynas â gwaith a gyflawnwyd ar 'Wythnos mewn ystafell' ond ni phennwyd amserlenni manwl na swyddogion arweiniol.

Fel y nodwyd uchod, mae angen cymryd camau i gyflawni gwaith mwy pwrpasol mewn cartrefi gofal i sicrhau cymorth adsefydlu wedi'i bersonoli i breswylwyr a fydd yn cael ei atgyfnerthu wedyn drwy eu gweithgareddau dyddiol.  Dywedir bod llawer o'r gweithgarwch a ddisgrifir wedi cael ei gyflawni yn 2015 a bod hyn wedi'i oruchwylio gan Fforwm y Sir, nad yw'n bodoli bellach. Er ei bod yn glir bod gwahanol fathau o newid yn digwydd ar lefel uchel, nid wyf wedi gweld bod dull strategol cynhwysfawr o gyflawni'r camau gweithredu hyn

| |
|---|
| ac mae rhagdybiaeth wedi'i datgan bod y Gofyniad Gweithredu hwn wedi'i gyflawni. Er ei bod yn amlwg bod cynnydd wedi digwydd, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn awgrymu bod llawer o waith i'w wneud eto. |
| **Gofyniad Gweithredu 3.2**<br><br>Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad. |
| **Ffiniol**<br><br>Nodir yn yr ymateb fod Gwynedd yn cydymffurfio â'r Gofyniad Gweithredu hwn a bod gwaith mewn llaw i gau'r bylchau lle maent yn bod, ond mae nifer o feysydd nad yw'r cyflwyniad yn darparu manylion amdanynt. Mae rhai arwyddion o gynnydd, ac rwyf yn nodi bod lefelau hyfforddiant wedi'u pennu, yn cynnwys hyfforddiant sefydlu, a bod modiwlau e-ddysgu i ategu hyn. Er hynny, byddwn wedi hoffi gweld rhagor o dystiolaeth o'r ffordd y mae sgiliau a dealltwriaeth yn cael eu gwreiddio a'u cynnal, er enghraifft drwy oruchwylio a mentora. Mae Gwynedd yn datgan ei fod wedi darparu hyfforddiant yn unol â Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru ers rhai blynyddoedd, ond nid yw hyn wedi'i ddisgrifio'n ddigonol, ac mae'n anodd dirnad hyn gan fod y Fframwaith wedi'i gyhoeddi'n gymharol ddiweddar, yn 2016.<br><br>Er hynny, rwyf yn falch o weld bod hyfforddiant i reolwyr wedi'i gomisiynu oddi wrth Dementia Care Matters (DCM); dywedir ei fod wedi cael effaith gadarnhaol a'i fod yn arwain at fwy o ddefnydd o offer a thechnegau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rwyf wedi nodi'r gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â'r cynllun DementiaGo a hefyd y gwaith yng Nghartref Gofal Bryn Seiont Newydd a byddaf yn ystyried hyn yng nghyd-destun yr ymateb i Ofynion Gweithredu 2.2 a 3.3. Mae hyn yn gadarnhaol iawn, ac yn cynnig rhagor o gyfleoedd i hyfforddi a datblygu staff. |

Cafwyd rhywfaint o ddadansoddi o'r sector annibynnol mewn perthynas â'i lefelau hyfforddiant, er fy mod yn siomedig bod hyn wedi'i gyflawni drwy ddadansoddi sampl (nid yw'r nifer, y ganran na'r proffiliau wedi'u nodi) gan y byddai prosesau ar gyfer monitro ansawdd wrth gyflawni contractau wedi rhoi gwell darlun.

Rwyf wedi nodi bod contract newydd ar gyfer cartrefi gofal wedi cael ei gyflwyno, gyda nifer o gamau gweithredu yn gysylltiedig â sicrhau ansawdd a diogelu, a dywedir y bydd hyn yn egluro disgwyliadau'r Awdurdod o ran lefelau hyfforddiant staff. Fodd bynnag, mae cwestiynau heb eu hateb ynglŷn â hyn. Er enghraifft, dywedir y bydd disgwyl i staff gofal ddilyn hyfforddiant dementia 'sylfaenol' ac 'arbenigol' – ond os yw hyn yn cyfateb i'r matrics hyfforddiant ar dudalen gyntaf yr ymateb i Ofyniad Gweithredu 3.2, mae'r hyfforddiant 'sylfaenol' yn cyfateb i lefel Ffrindiau Dementia yn unig. Rwyf yn gefnogol iawn i hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia cyffredinol ar gyfer y gymuned ehangach, ond nid yw hyfforddiant ar y lefel hon yn ddigon i staff cartrefi gofal. Nid oes sôn yn y cyflwyniad am unrhyw ddisgwyliadau mewn perthynas â staff cynorthwyol ac nid yw'n glir beth fydd y contract yn cynnwys ar hyn. Mae hefyd yn hanfodol bod trefniadau monitro effeithiol ar gyfer y contract newydd er mwyn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy am hyfforddiant dementia yn y dyfodol.

Rwyf yn nodi bod tystiolaeth o effaith mewn perthynas â staff sydd wedi dilyn hyfforddiant ar gyfer QCF ar lefelau 2 a 3 – er nad yw'n glir a yw'r ymatebion hyn yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gwelliant parhaus/yr arferion gorau ac, os ydynt, ym mha ffordd. Mae hefyd yn galonogol bod Gwynedd yn dweud yn ei ymateb ei fod yn gweld manteision mewn dilyn dull DCM. Fodd bynnag, byddai'r cyflwyniad hwn wedi bod yn gryfach o gynnwys enghreifftiau o staff sydd wedi cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd, a thystiolaeth o effaith drwy fonitro contractau a chyfleoedd eraill i arsylwi.

Rwyf yn falch bod gwaith datblygu yn mynd rhagddo â Phrifysgol Bangor, ond nid yw'n glir a yw Gwynedd yn helpu rheolwyr i gofnodi a lledaenu'r gwersi a ddysgwyd neu'n hyrwyddo'r dull hwn ar draws y sector annibynnol ac, os ydyw, ym mha ffyrdd. Mae cartref gofal Bryn Seiont Newydd (rhan o grŵp Pendine Park) yn arloesi ac mae'n dda bod Gwynedd yn cydnabod yn ei gyflwyniad y camau mawr ymlaen y mae wedi eu

cymryd ar hyn. Fodd bynnag, un ystyriaeth allweddol i gomisiynwyr fydd sut y gallant sicrhau bod eraill yn cael eu hysbrydoli gan arfer da o'r fath.

Mae camau gweithredu wedi'u rhestru sy'n ymwneud â datblygu Cartref Llys Cadfan a gwerthuso/ehangu'r cynllun Dementia Go, ond nid yw'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â hyfforddiant staff. Mae'n bwysig bod Gwynedd yn adolygu ei gamau gweithredu yng nghyd-destun Gwaith Da: Fframwaith Dysgu a Datblygu Dementia i Gymru, ac nid wyf yn cael yr argraff o'r cyflwyniad fod y fframwaith hwn wedi'i ystyried a'i amgyffred yn llawn.

Yn fy ymateb i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â'm hadroddiad 'Dementia: mwy na dim ond colli'r cof', gofynnais am roi sylw manwl gan Fyrddau Partneriaeth i'r materion a nodwyd yn fy adroddiad ac am iddynt ofyn cwestiynau heriol iddyn nhw eu hunain ynghylch y canlyniadau a sicrheir i bobl sy'n byw gyda dementia. Roeddwn hefyd wedi atodi set awgrymedig o gwestiynau a rhestr wirio ac rwyf yn argymell yn daer bod y rhain yn cael eu dychwelyd yn rhan o ymateb Gwynedd i Ofyniad Gweithredu 3.2

**Terminoleg**: Rhaid i mi dynnu sylw at fater sy'n ymwneud â'r defnydd o iaith. Nid yw termau fel 'suffer from' a 'challenging behaviour' yn berson-ganolog ac nid ydynt yn gyson â'r model cymdeithasol o anabledd. Mae'n hollbwysig rhoi sylw i hyn gan fod iaith o'r math hwn yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol ac yn tanseilio newid mewn diwylliant.

| |
|---|
| |
| **Gofyniad Gweithredu 3.3**<br><br>Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol. |
| **Annigonol**<br><br>Rwyf yn bryderus iawn o weld mai ychydig o gynnydd a gafwyd mewn perthynas â'r Gofyniad Gweithredu hwn yn y blynyddoedd a aeth heibio ers cyhoeddi'r adroddiad ar fy Adolygiad o Gartrefi Gofal; nid oes cyfeiriad at y cynllun gweithredu a gyflwynwyd gan Gyngor Gwynedd mewn ymateb i hyn. Rwyf yn nodi'r rhwystrau sydd wedi'u disgrifio yng nghyd-destun pwysau ariannol, ond nid yw'r rhain yn unigryw i Wynedd. Er fy mod yn llawn sylweddoli'r heriau sy'n codi yn yr hinsawdd bresennol, mae nifer o'r newidiadau a nodwyd yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal yn rhai y gellir eu cyflawni heb gost neu am gost isel, a thrwy ailddylunio gwasanaethau.<br><br>Mae llawer o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn ymwneud â phobl hŷn yn gyffredinol ac anodd yw gweld y cysylltiad rhyngddi a phobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Lle mae gwybodaeth wedi'i darparu sy'n ymwneud yn fwy penodol â chartrefi gofal, mae nifer o'r enghreifftiau wedi'u seilio ar weithgareddau (e.e. therapi celf) ac nid ydynt yn ymwneud o reidrwydd â gwella rhwydweithiau cymdeithasol.<br><br>Mae dwy enghraifft o weithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau, ac mae lle mawr i ganmol y prosiect tecstiliau 'Perthyn', lle mae plant yr ardal wedi gweithio gyda phreswylwyr cartref Bryn Seiont Newydd ac artist tecstiliau i ddathlu'r cysylltiadau rhwng Caernarfon a Phatagonia. Mae enghraifft hefyd o ddod â dwy genhedlaeth at ei |

gilydd lle'r oedd plant o feithrinfa Plant Parciau wedi ymweld â chartref gofal Plas Maesincla am wythnos i gymysgu a chymdeithasu â'r preswylwyr. Er bod y rhain yn gadarnhaol iawn, nid oes gwybodaeth am y ffordd yr oedd y gwersi cysylltiedig wedi'u cofnodi a'u hymestyn. Nid oes dim i ddangos ychwaith beth yw graddau a chyrhaeddiad gweithgareddau o'r fath ar draws y sector neu sut mae Gwynedd yn hybu newid ac yn hyrwyddo'r arferion gorau.

Mae cyfeiriad at gymorth seiliedig ar ffydd, ond nid yw hyn wedi'i eirio mewn termau wedi'u personoli, dim ond bod cartrefi yn hyrwyddo cysylltiad wythnosol ag arweinwyr ffydd. Lle darparwyd enghreifftiau o gysylltedd digidol, nid oes tystiolaeth bod preswylwyr yn cael eu hyfforddi neu eu helpu i fanteisio ar hyn.

Rwyf yn falch o nodi'r gwaith arloesol mewn perthynas â Bryn Seiont Newydd (lle mae mwy na 80 y cant o'r staff yn siarad Cymraeg) a bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn yr holl gartrefi gofal, yn cynnwys drwy gytundeb newydd seiliedig ar wasanaethau gyda darparwyr. Rwyf hefyd yn nodi o'r ymateb i Ofynion Gweithredu eraill fod rhai enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â chyfeillio a chreu cysylltiadau â'r gymuned leol – yn enwedig mewn perthynas â dementia (Gofyniad Gweithredu 3.2). Mae'n galonogol bod y prosiect Speak Up yn hwyluso cyfathrebu rhwng staff a phreswylwyr ac rwyf yn gobeithio y bydd Gwynedd yn datblygu'r gwaith hwn ac yn elwa ohono. Fodd bynnag, mae angen rhagor o dystiolaeth i ddangos bod y Gofyniad Gweithredu hwn yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd gynhwysfawr, gan gynnwys pobl sy'n gorfod aros yn y gwely a'r rheini sy'n profi colled synhwyraidd.  Mae'r unigolion hyn mewn perygl neilltuol o brofi unigrwydd ac arwahanrwydd mewn lleoliadau cartref gofal.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth yn yr ymateb hwn am brofiadau cadarnhaol i breswylwyr ond, fel y nodwyd uchod, mae nifer o'r enghreifftiau hyn heb gysylltiad penodol â chyflawni'r Gofyniad Gweithredu hwn. Prin yw'r dystiolaeth o ffyrdd systematig wedi'u personoli o gofnodi'r effaith ar breswylwyr drwy fonitro contractau neu drwy werthuso mentrau'n ffurfiol. Er bod datganiad i'r perwyl bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn, nid oes tystiolaeth o bersonoli yn yr ymateb hwn drwyddo draw. Er hynny, rwyf yn nodi o'r ymateb i Ofyniad Gweithredu 6.2 fod gwaith datblygu yma sy'n gysylltiedig â Ffordd Gwynedd, yn cynnwys hyfforddiant

ar ‘Collaborative Conversations’ a datblygu offer sy’n canolbwyntio’n fwy ar ganlyniadau. Mae camau gweithredu eraill a ddarparwyd yn deillio o’r rhaglen Heneiddio’n Dda. Er nad wyf am feirniadu’r cynllun gweithredu Heneiddio’n Dda sydd ar waith, nid yw’n ymdrin â’r gwaith sydd ei angen i gyflawni Gofyniad Gweithredu 3.3

Rwyf yn cydnabod bod Gwynedd yn ystyried ffyrdd i’r boblogaeth ehangach gymryd mwy o gyfrifoldeb a chwarae rhan mewn cefnogi pobl sy’n agored i niwed (drwy’r Her Gofal) ac rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn creu cymuned fwy integredig a chynhwysol ymhen amser. Rwyf yn nodi y bydd yr Uned Diogelu ac Sicrwydd Ansawdd newydd yn chwarae rhan allweddol yn y dyfodol i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr ac i fonitro a mesur ansawdd. Bydd hyn yn bwysig iawn ar gyfer hyrwyddo newid.

Rwyf yn falch bod Gwynedd yn cydnabod bod ganddo ran allweddol i’w chwarae mewn hybu cydweithredu effeithiol rhwng sefydliadau a sectorau er mwyn cyrraedd nodau cyffredin. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni’r Gofyniad Gweithredu hwn, bydd angen arweinyddiaeth effeithiol a dealltwriaeth briodol o lefel a math y newid sydd ei angen, ac nid yw hyn yn gwbl amlwg yn y cyflwyniad hwn.

| | |
|---|---|
| | |
| **Gofyniad Gweithredu 6.2**<br><br>Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.<br><br>Dylid adrodd bob blwyddyn ar y ffordd y mae adborth parhaus gan bobl hŷn wedi'i ddefnyddio i hybu gwelliant parhaus. | |
| **6.2** | **Digonol**<br><br>Nodwyd yn yr ymateb fod Gwynedd yn cydymffurfio'n rhannol â'r Gofyniad Gweithredu hwn. Rhoddwyd disgrifiad o gynnydd ar lefel gyffredinol. Rwyf yn gweld bod newid strwythurol wedi digwydd drwy sefydlu'r Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd, a dywedir bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau lle canolog i ansawdd bywyd. Mae Ffordd Gwynedd yn darparu egwyddorion sylfaenol, a dywedir ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn hybu ffyrdd newydd o weithio (sydd wedi'u hamlinellu yn y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd). Nodwyd yn yr ymateb i Ofyniad Gweithredu 3.2 fod hyfforddiant i reolwyr wedi'i gomisiynu oddi wrth DCM a bydd hyn yn elfen bwysig mewn newid diwylliannol. Cyflwynir hyfforddiant ar 'Collaborative Conversations' i dimau Gwaith Cymdeithasol, a dylai hyn fod yn sylfaen dda ar gyfer gwrando ar farn pobl a rhoi lle mwy canolog i ansawdd bywyd. |

| | |
|---|---|
| | Rwyf yn nodi bod Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys partneriaid ym maes Iechyd ac Awdurdodau Lleol cyfagos. Rwyf yn falch iawn o weld bod ystyriaeth wedi'i rhoi i beth yw ystyr ansawdd a bod cydnabyddiaeth y gall fod yn fater goddrychol. Mae'n galonogol bod dull o weithredu ar y cyd yn cael ei ddatblygu a bod y canfyddiadau o'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cyflwyno newid. Nodir yn yr ymateb y bydd hyn yn rhan o'r broses o lunio'r contractau newydd â darparwyr, ac y bydd darparwyr yn cael eu hysbysu o'r pwysigrwydd o sicrhau bod llais gan breswylwyr. Er hynny, byddwn wedi hoffi gweld rhagor o wybodaeth am yr hyn y bydd mewnbynnau adborth safonol yn ei olygu'n ymarferol.<br><br>Rwyf yn nodi bod Gwynedd yn cymryd camau i hyrwyddo newid mewn diwylliant drwy ei raglen Ffordd Gwynedd, a nodir yn y cyflwyniad fod Ffordd Gwynedd yn arwain at newidiadau ar lawr gwlad, ond byddai'r cyflwyniad hwn wedi bod yn gryfach o gynnwys rhai enghreifftiau penodol o hyn. Cafwyd ymdrechion hefyd i wella'r monitro ac adrodd ar ansawdd mewn cartrefi gofal penodol, ac 'olwynion ansawdd' yw un o'r dulliau o hwyluso hyn. Dywedir bod ymweliadau adran 27 yn drwyadl, a'u bod yn cynnwys cyfleoedd i siarad â phreswylwyr ac arsylwi'n uniongyrchol. Fodd bynnag, yn y rhestr o elfennau sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd, byddwn wedi hoffi gweld mwy o bwyslais ar y dulliau a ddefnyddir mewn cartrefi i sicrhau bod llais gan yr holl breswylwyr. Er hynny, roeddwn yn falch iawn o nodi bod offer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'n cael eu cyflwyno. Er enghraifft, mae gwybodaeth llinell sylfaen am unigolion yn cael ei chasglu'n awr yn ystod asesiadau a'i dilyn wedyn er mwyn hyrwyddo newid a darparu tystiolaeth o effaith.<br><br>Er bod rhywfaint o waith cadarnhaol wedi'i ddisgrifio yn yr ymateb hwn, mae llawer ohono'n ymwneud yn bennaf â phrosesau ac nid oes manylion penodol am ffyrdd o gynnwys preswylwyr yn yr holl gartrefi gofal. Mae cyfeiriad byr at y ffaith bod cyfarfodydd i breswylwyr mewn rhai cartrefi gofal, ac at arolygon a holiaduron, ond mae'n anodd asesu ymateb Gwynedd i'r Gofyniad Gweithredu hwn oherwydd lefel y manylder a ddarparwyd. Mae angen nifer o gyfleoedd dilys i breswylwyr fynegi |

| | |
|---|---|
| | unrhyw bryderon sydd ganddynt a sôn am yr hyn y mae ansawdd bywyd yn ei olygu iddyn nhw. Dylai hyn gynnwys sianeli ffurfiol ac anffurfiol, gydag eiriolaeth i'r rheini sydd â'i hangen.<br><br>Mae mewnbynnau annibynnol sy'n galluogi preswylwyr i roi adborth yn hanfodol hefyd i'w galluogi i roi ymatebion ystyrlon, yn enwedig yn achos pobl sy'n ei chael yn anodd mynegi eu barn, fel rhai sydd â dementia neu golled synhwyraidd. Mae'r enghraifft a roddwyd gan Gyngor Gwynedd am ymgynghori â phreswylwyr ar eu hamgylchedd ac addurno'r cartref yn tanlinellu'r pwysigrwydd o gynnwys pob safbwynt – os na chaiff hyn ei reoli mewn ffordd sensitif a chynhwysol, byddai ymgynghori o'r fath sy'n digwydd gyda'r bwriadau gorau yn gallu arwain at ddodrefnu'r cartref mewn ffyrdd sy'n analluogi preswylwyr sydd â dementia (er enghraifft, papur wal neu garpedi sydd â phatrymau 'prysur').<br><br>Rwyf yn croesawu'r gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo yng Ngwynedd, o fewn yr Awdurdod Lleol ac ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol, ac mae tystiolaeth o gynnydd ar hyrwyddo ansawdd bywyd ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal. Fodd bynnag, dim ond o'r ychydig lleiaf y mae'r ymateb i'r Gofyniad Gweithredu hwn yn cael ei ystyried yn 'Ddigonol'.  Byddwn wedi hoffi cael mwy o sicrwydd o ymrwymiad i'r manylion – drwy ofalu bod amrywiaeth o fecanweithiau'n cael eu datblygu i sicrhau bod lleisiau preswylwyr yn cael eu clywed. Byddai'n fuddiol i Gyngor Gwynedd ystyried hyn ac ailedrych hefyd ar y camau gweithredu yr oedd wedi'u nodi yn ei ymateb i'm Hadolygiad o Gartrefi Gofal yn 2014, er mwyn sicrhau bod hyn wedi'i gynnwys yn ei gynlluniau gweithredu ar lefel uwch. |